OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 2992 (Cy.279) (C.106)

HAWLIAU TRAMWY, CYMRU

Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Cychwyn) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud - - 15 Tachwedd 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 107(4)(b) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006(**1**):

Enwi, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (Cychwyn) (Cymru) 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Cychwyn Rhan 6 o'r Ddeddf

2. Daw Rhan 6 (hawliau tramwy) o'r Ddeddf i rym ar 16 Tachwedd 2006.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**)

D. Elis-Thomas
15 Tachwedd 2006 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**1**) 2006 p. 16.
(**2**) 1998 p. 38.